Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru

2025

**Dyma ddegfed datganiad polisi tâl blynyddol Llywodraeth Cymru.**

Mae'r Datganiad Polisi Tâl hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau ynghylch tâl, yn arbennig tâl uwch-reolwyr. Mae'n cydategu gwybodaeth arall sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan, y gallwch ei gweld drwy'r ddolen isod. Os na allwch ddod o hyd i'r wybodaeth yr ydych yn chwilio amdani cysylltwch â **cymorth@llyw.cymru**

**llyw.cymru**



**Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol

# Cyflwyniad

Rwy'n falch o gyflwyno Datganiad Polisi Tâl 2025. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd system tâl a gwobrwyo sy'n caniatáu inni recriwtio a chadw staff talentog sydd wedi ymrwymo i gyflawni dros bobl Cymru, yn enwedig mewn cyfnod mor heriol.

Rwy'n credu y dylai ein system dâl fod yn gyfartal i bawb, yn briodol ac yn dryloyw, gan roi gwerth am arian a gwobrwyo staff yn deg am y gwaith y maent yn ei gyflawni. Yn ogystal â chyflog, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig amrywiaeth eang o fuddion ariannol ac anariannol yn y gweithle. Mae'r rhain yn cynnwys aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, mynediad at drefniadau blaenswm cyflog ac aberthu cyflog, cyfleoedd dysgu a datblygu eithriadol a chynlluniau llesiant gweithwyr yn ogystal â ffyrdd o weithio sy'n adeiladu ar ddatblygiadau diweddar mewn technoleg a gweithio clyfar.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu ein dull gweithredu o ran tâl, a'r berthynas rhwng tâl gweithwyr a chydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr. Fe'i lluniwyd yn unol â'r egwyddorion a gynhwysir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Tryloywder cydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru' a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/tryloywder-t%C3%A2l-uwch-reolwyr-yn-y-sector-cyhoeddus-datganoledig-yng-nghymru.pdf a chanllawiau dilynol a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/tryloywder-t%C3%A2l-uwch-reolwyr-yn-y-sector-cyhoeddus-datganoledig-yng-nghymru.pdf



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Egwyddorion | 3 |
| Egwyddorion Tâl | 3 |
| Fframwaith Deddfwriaethol | 3 |
| Penderfyniadau gan gynnwys ystyried gwerth am arian | 3 |
| Trefniadau Tâl | 4 |
| Taliadau a Lwfansau Ychwanegol | 4 |
| Tâl Uwch-reolwyr | 4 |
| Rôl yr Ysgrifennydd Parhaol | 4 |
| Cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol | 4 |
| Uwch-staff | 5 |
| Rheoli Talent | 6 |
| Cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad | 6 |
| Adrodd ar gyflog cyfartal a'r bwlch cyflog o ran cydraddoldeb | 6 |
| Cymorth i staff sy'n cael tâl is | 11 |
| Pwyntiau cyflog uchaf ac isaf | 12 |
| Polisi ymadael | 12 |
| Atodiadau | 13 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54001 ISBN digidol 978-1-83745-306-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Egwyddorion

## Egwyddorion Tâl

- Bydd y system dâl yn fforddiadwy ac yn cynnig gwerth da am arian i drethdalwyr.
- Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau tâl cyfartal i gyflogeion a bydd camau'n cael eu cymryd i ymdrin â bylchau cyflog o ran rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd.
- Bydd trefniadau tâl yn agored, yn dryloyw ac yn syml. Caiff cymhlethdod diangen ei ddileu.
- Bydd datblygiad cyflog syml gyda graddfeydd tâl cynyddrannol yn galluogi gweithwyr i gyrraedd cyfradd tâl eu rôl.
- Bydd y Cyflog Byw gwirioneddol (fel y'i diffinnir gan y Sefydliad Cyflog Byw) yn sail i gyfraddau cyflog a byddwn yn parhau i fod yn gyflogwr achrededig Cyflog Byw Gwirioneddol.

# Fframwaith Deddfwriaethol

Mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i benodi staff o dan adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol wrth bennu cyflog a chydnabyddiaeth ariannol ei staff. Mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol gyfrifoldebau dirprwyedig oddi wrth y Prif Weinidog dan Ddeddf y Gwasanaeth Sifil (Swyddogaethau Rheoli) 1992 ar gyfer swyddogaethau personél, gan gynnwys materion cyflogaeth.

# Penderfyniadau gan gynnwys ystyried gwerth am arian

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru ac mae'n gweithredu fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (AD) yn gyfrifol am argymell trefniadau tâl priodol ar gyfer staff dirprwyedig i'r Gweinidogion. Staff dirprwyedig yw cyflogeion ar lefelau Cymorth Tîm, Swyddog Gweithredol, Swyddog Gweithredol Uwch, Uwch-swyddog Gweithredol, Gradd 7 a Gradd 6. Yn sail i'r trefniadau hyn, mae'r Cyfarwyddwr AD yn gyfrifol am ddarparu cyngor a chanllawiau arbenigol ar holl faterion AD a materion sy'n ymwneud â thâl, ac am sicrhau bod yr Undebau Llafur yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau tâl yn ysbryd partneriaeth gymdeithasol a thrwy Gytundeb Bargeinio ar y Cyd.

Ar gyfer y mwyafrif helaeth o gyflogeion, Llywodraeth Cymru sy'n pennu telerau ac amodau eu gwasanaeth, gan gynnwys eu cyflog. Er hynny, yn unol â rheoliadau TUPE, efallai fod rhai aelodau staff o sefydliadau sydd wedi uno â'r Llywodraeth wedi dewis cadw telerau ac amodau gwasanaeth eu cyn-gyflogwr. Nid yw trefniadau o'r fath yn dod o dan drefniadau bargeinio ar y cyd Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n falch iawn o'n trefniadau cadarn i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur, ac yn cydweithio'n agos â hwy ar faterion sy'n ymwneud â thâl. Mae'r trefniadau ar gyfer ymgynghori a thrafod cyflog wedi'u hamlinellu mewn Cytundeb Bargeinio ar y Cyd.

Fel rheol bydd dyfarniadau tâl i staff dirprwyedig yn cael eu negodi yn flynyddol, ond gellir cytuno ar drefniadau eraill, er enghraifft pan fo cytundebau presennol yn cwmpasu cyfnod estynedig.

# Trefniadau Tâl

Gellir gweld bandiau cyflog Llywodraeth Cymru yn Atodiad 1. Mae penodiadau newydd yn cael eu recriwtio fel rheol ar isafbwynt y band cyflog perthnasol. O dan rai amgylchiadau, er enghraifft lle bo tystiolaeth gref yn y farchnad yn bodoli, gall gweithiwr newydd gael ei benodi ar gyfradd uwch o fewn y raddfa. Yna mae'r cyflogau'n codi fesul cam bob blwyddyn nes cyrraedd yr uchafswm (fel rheol o fewn 2-3 blynedd). Os yw unigolyn yn tangyflawni yn ôl ei asesiad, nid yw'n gymwys i gael codiad cyflog cynyddrannol. Wrth gael dyrchafiad, y cyflog cychwynnol fydd isafbwynt y band cyflog ar gyfer y raddfa newydd. Gellir gweld sawl aelod o staff sydd ar bob gradd yn Atodiad 2.

Gellir gweld ystod cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil (a bennir gan Lywodraeth y DU) yn Atodiad 1.

# Taliadau a Lwfansau Ychwanegol

Gan ddibynnu ar anghenion busnes, mae'n bosibl y bydd gweithwyr yn gymwys i gael y taliadau ychwanegol canlynol wrth gyflawni eu swyddogaethau – lwfans dyrchafiad dros dro, lwfansau proffesiynol, a chostau teithio a chynhaliaeth. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflogi nifer bach o staff sydd wedi'u lleoli yn Llundain sy'n cael lwfans i adlewyrchu cost ychwanegol byw a gweithio yn Llundain.

# Tâl Uwch-reolwyr

## Rôl yr Ysgrifennydd Parhaol

Dechreuodd Andrew Goodall yn ei swydd fel Ysgrifennydd Parhaol ym mis Tachwedd 2021. Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Roedd gan Lywodraeth Cymru gyllideb o £28.9 biliwn ar gyfer 2024-25 ac mae'n gyfrifol am ystod eang o wasanaethau cyhoeddus gan gyflogi 5,609 o staff (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cael ei benodi ar sail teilyngdod, yn sgil hysbysebu'r swydd yn gyhoeddus, gan banel sy'n cynnwys fel rheol Pennaeth y Gwasanaeth Sifil, un o Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil a pherson annibynnol o'r tu allan i'r Gwasanaeth Sifil. Ar ôl iddo gael ei benodi, mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn edrych yn benodol i'r Prif Weinidog am gyfarwyddyd, am ei flaenoriaethau personol ac am flaenoriaethau gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

## Cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol

Mae cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol yn cael ei benderfynu gan Swyddfa'r Cabinet adeg ei benodiad ac yn cael ei gymeradwyo gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Ystod cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol yw £240,000-£245,000. Cafodd Andrew Goodall ei benodi'n Ysgrifennydd Parhaol o 1 Tachwedd 2021 ac mae wedi'i secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Ac yntau wedi'i gyflogi yn barhaol yn y GIG, mae Andrew yn dal i fod ar delerau ac amodau'r GIG ac mae'n gymwys i gael unrhyw ddyfarniadau cyflog GIG Cymru a wneir i'r raddfa gyflog y mae'n rhan ohoni. Bydd y rhain yn wahanol i ddyfarniadau cyflog a wneir i staff ar delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddir manylion cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol yn yr adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol. Mae hyn yn rhan o gyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru ac mae modd ei weld yma:
llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru

## Uwch-staff

Daw swyddogaethau uwch-reolwyr o dan yr Uwch Wasanaeth Sifil ar lefelau Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Ysgrifennydd Parhaol. Nid yw tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil wedi'i ddirprwyo, sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru'n dyfarnu cyflog iddynt yn unol â'r canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y DU, yn dilyn argymhellion gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB).

Ceir gwybodaeth bellach am SSRB yma: www.gov.uk/government/organisations/review-body-on-senior-salaries.

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol yn is-bwyllgor o Fwrdd Llywodraeth Cymru. Roedd y pwyllgor yn arfer gweithredu fel Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) a oedd yn gyfrifol am dâl ac amodau SCS, cynllunio ar gyfer olyniaeth uwch, recriwtio a holl achosion personél SCS. Ym mis Tachwedd 2023 cafodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ei ailbwrpasu'n gorff cynghori strategol a'i ailenwi'n Bwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol. Ei bwrpas sydd wedi'i ddiffinio o'r newydd yw darparu her, cyfeiriad a sicrwydd ar strategaethau a mentrau sy'n gysylltiedig â phobl, risgiau a chyfleoedd allweddol.

Er mwyn ailgyfeirio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fel ei fod yn canolbwyntio ar faterion strategol yn ymwneud â phobl, ac er mwyn sicrhau bod atebolrwydd rôl yn cyd-fynd yn well â'r disgrifiad o'r rôl, cafodd Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd y Gweithlu ei ddiwygio i ddirprwyo penderfyniadau ac atebolrwydd am recriwtio ac adnoddau dirprwyedig i Gyfarwyddwyr Cyffredinol. Bydd y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol newydd yn cadw cyfrifoldebau statudol dros gymhwyso telerau ac amodau SCS a'u goruchwylio, gan gynnwys y fframwaith rheoli perfformiad, y strategaeth tâl a dyfarniadau tâl a bydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddadansoddiad rheolaidd o dueddiadau'r gweithlu. Ceir copi o adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2024-25 yn Atodiad 5. Mae'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor, ei gylch gorchwyl a'i aelodau.

Mae adroddiad datgelu ar gyfer staff sy'n ennill dros £100,000 wedi'i atodi yn Atodiad 4.

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru yn cynnwys uwch-staff o fewn y sefydliad a Chyfarwyddwyr Anweithredol. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n cadeirio'r Bwrdd, ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd. Ei ddiben yw cynghori'r Ysgrifennydd Parhaol ar benderfyniadau strategol ynghylch datblygiad y sefydliad i gefnogi'r Cabinet a chyflawni amcanion y Gweinidogion. Mae cylch gorchwyl y Bwrdd i'w weld yma: gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/mb-terms-of-ref.pdf.

Ceir manylion cyflogau aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn yr adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol sy'n rhan o gyfrifon blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru.

## Rheoli Talent

Mae dull Llywodraeth Cymru o reoli talent yn sicrhau ein bod yn rhoi cyfle cyfartal i bawb arddangos eu potensial a'u cynnydd, a bod modd adnabod unigolion â photensial uchel a'u rheoli a'u datblygu mewn ffordd wahanol er mwyn eu gosod mewn swyddogaethau sy'n eu herio a'u hymestyn. O ganlyniad bydd staff talentog yn cael eu gosod yn y swyddi cywir gan sicrhau perfformiad cyson, cynaliadwy ar lefel uchel.

Mae nifer o gynlluniau datblygu talent hefyd ar gael i staff Llywodraeth Cymru ar bob lefel, gan gynnwys cymryd rhan mewn nifer o gyfleoedd ar draws y Gwasanaeth Sifil, fel y Llwybr Carlam; Cynllun Arweinwyr y Dyfodol; a'r Cynllun Uwch-arweinwyr. Mae amrywiaeth o gynlluniau datblygu mewnol ar gael hefyd i ategu amcan y sefydliad i fod yn batrwm o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad

Nid yw Llywodraeth Cymru'n cynnig cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad i staff dirprwyedig.

Ar gyfer staff uwch, mae rhywfaint o hyblygrwydd gan y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol i gynnig taliadau sy'n amrywio yn ôl perfformiad (neu fonws) i gyflogeion SCS. Er hynny, nid yw'r Pwyllgor wedi gwneud unrhyw daliadau o'r fath ers 2013.

## Adrodd ar gyflog cyfartal a'r bwlch cyflog o ran cydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal archwiliadau cyflog cyfartal yn rheolaidd i amlygu unrhyw berygl i gyflog cyfartal o fewn y system gyflogau. Mae ein bwlch cyflog rhywedd yn cael ei gyhoeddi yn Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyflogwr. Mae'r adroddiadau i'w gweld yma Adroddiadau cydraddoldeb blynyddol Llywodraeth Cymru | LLYW. CYMRU.

Gwneir dadansoddiad cyflog cyfartal gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y data'n ystadegol gadarn ac yn gymaradwy.

Ni fydd y niferoedd staff a nodir isod yn cyfateb i'r ffigur cyfwerth ag amser llawn (FTE) a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn gan fod y data'n cael eu hadrodd ar gyfer staff yn hytrach nag FTE. Bydd p'un a gafodd data penodol eu datgan, fel bod modd eu dadansoddi, yn effeithio arnynt hefyd.

### Bwlch Cyflog Rhywedd

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 5,804 o staff, sef 3,554 o fenywod (61%) a 2,250 o ddynion (39%).

**Bwlch Cyflog Rhywedd Llywodraeth Cymru: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025**

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) menywod | Cyflog cyfartalog (cymedrig) gwrywod | Bwlch cyflog rhywedd cymedrig | Cyflog canolrifol menywod | Cyflog canolrifol gwrywod | Bwlch cyflog rhywedd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £48,545 | £50,956 | 4.73% | £43,759 | £45,974 | 4.82% |
| Tâl yr awr | £25.23 | £26.48 | | £22.74 | £23.90 | |

### Bwlch Cyflog Rhywedd yn ôl Gradd: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) menywod | Cyflog cyfartalog (cymedrig) gwrywod | Bwlch cyflog rhywedd cymedrig | Cyflog canolrifol menywod | Cyflog canolrifol gwrywod | Bwlch cyflog rhywedd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Tim | Cyflog | £27,749 | £27,861 | 0.41% | £28,246 | £28,246 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £14.42 | £14.48 | | £14.68 | £14.68 | |
| Swyddog Gweithredol (EO) | Cyflog | £32,699 | £32,828 | 0.39% | £33,748 | £33,748 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £17.00 | £17.06 | | £17.54 | £17.54 | |
| Swyddog Gweithredol Uwch (HEO) | Cyflog | £41,641 | £41,513 | -0.31% | £43,759 | £43,759 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £21.64 | £21.58 | | £22.74 | £22.74 | |
| Uwch-swyddog Gweithredol (SEO) | Cyflog | £52,013 | £52,031 | 0.03% | £54,431 | £54,431 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £27.03 | £27.04 | | £28.29 | £28.29 | |
| G7 | Cyflog | £67,865 | £68,217 | 0.52% | £70,450 | £70,450 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £35.27 | £35.46 | | £36.62 | £36.62 | |
| G6 | Cyflog | £81,900 | £82,807 | 1.10% | £84,882 | £84,882 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £42.57 | £43.04 | | £44.12 | £44.12 | |
| Uwch Wasanaeth Sifil | Cyflog | £97,765 | £101,383 | 3.57% | £92,537 | £92,537 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £50.81 | £52.69 | | £48.10 | £48.10 | |

**Bwlch Cyflog Rhywedd yn ôl Grŵp Gradd: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025**

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) menywod | Cyflog cyfartalog (cymedrig) gwrywod | Bwlch cyflog rhywedd cymedrig | Cyflog canolrifol menywod | Cyflog canolrifol gwrywod | Bwlch cyflog rhywedd canolrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TS ac EO | Cyflog | £30,541 | £30,961 | 1.36% | £29,657 | £30,749 | 3.55% |
| | Tâl yr awr | £15.87 | £16.09 | | £15.41 | £15.98 | |
| HEO ac SEO | Cyflog | £46,936 | £47,004 | 0.15% | £45,974 | £45,974 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £24.39 | £24.43 | | £23.90 | £23.90 | |
| G7, G6 ac SCS | Cyflog | £73,550 | £75,938 | 3.14% | £70,450 | £70,450 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £38.23 | £39.47 | | £36.62 | £36.62 | |

- Mae bwlch cyflog rhywedd Llywodraeth Cymru wedi gostwng i 4.73% ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu â 6.08% ym mis Mawrth 2024. Dyma'r bwlch cyflog culaf ers i'n cyfres amser ddechrau yn 2019.
- Y ffactor mwyaf tebygol o gyfrannu at y bwlch cyflog rhywedd yw'r cyfrannau is o fenywod mewn graddau uwch.

## Bwlch Cyflog Ethnigrwydd

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 5,191 o staff: 176 o staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (3%) a 5,015 o staff Gwyn (97%). Ni chafodd 613 o staff nad ydynt wedi datgan eu hethnigrwydd ar y system adnoddau dynol (11% o holl staff Llywodraeth Cymru) eu cynnwys.

**Bwlch Cyflog Ethnigrwydd Llywodraeth Cymru: Cymedrig a Chanolrifol, Mawrth 2025**

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff ethnig leiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff Gwyn | Bwlch cyflog cymedrig o ran ethnigrwydd | Cyflog canolrifol staff ethnig leiafrifol | Cyflog canolrifol staff Gwyn | Bwlch cyflog canolrifol o ran ethnigrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £47,911 | £49,974 | 4.13% | £43,759 | £45,974 | 4.82% |
| Tâl yr awr | £24.90 | £25.97 | | £22.74 | £23.90 | |

**Bwlch Cyflog Ethnigrwydd yn ôl Grŵp Gradd: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025**

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff ethnig leiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff Gwyn | Bwlch cyflog | Cyflog canolrifol staff ethnig leiafrifol | Cyflog canolrifol staff Gwyn | Bwlch cyflog canolrifol o ran ethnigrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TS ac EO | Cyflog | £31,165 | £31,007 | -0.51% | £30,749 | £30,749 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £16.20 | £16.12 | | £15.98 | £15.98 | |
| HEO ac SEO | Cyflog | £46,052 | £47,036 | 2.09% | £44,867 | £45,974 | 2.41% |
| | Tâl yr awr | £23.94 | £24.45 | | £23.32 | £23.90 | |
| G7, G6 ac SCS | Cyflog | £75,817 | £74,734 | -1.45% | £70,450 | £70,450 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £39.41 | £38.84 | | £36.62 | £36.62 | |

- Bu cynnydd bach ym mwlch cyflog ethnigrwydd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 (4.13%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (3.78%). Cynyddodd y bwlch cyflog ethnigrwydd rhwng 2019 a 2021, yna gostyngodd rhwng 2021 a 2024.
- Gall newidiadau bach yn y gymysgedd graddau gael effaith fawr o ystyried y niferoedd bach. Felly, gallem ddisgwyl i'r bwlch cyflog ethnigrwydd fod braidd yn anwadal dros amser ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau dros amser.

## Bwlch Cyflog Anabledd

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 5,349 o staff: nododd 377 eu bod yn anabl (7%) a nododd 4,972 nad oeddent yn anabl (93%). Ni chafodd 455 o staff nad ydynt wedi datgan a ydynt yn anabl ar y system adnoddau dynol (8% o holl staff Llywodraeth Cymru) eu cynnwys.

**Bwlch Cyflog Anabledd Llywodraeth Cymru: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025**

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff anabl | Cyflog cyfartalog (cymedrig) pobl nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog cymedrig o ran anabledd | Cyflog canolrifol pobl anabl | Cyflog canolrifol pobl nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog canolrifol o ran anabledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £47,870 | £50,223 | 4.69% | £43,759 | £45,974 | 4.82% |
| Tâl yr awr | £24.88 | £26.10 | | £22.74 | £23.90 | |

**Bwlch Cyflog Anabledd yn ôl Grŵp Gradd: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025**

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff anabl | Cyflog cyfartalog (cymedrig) pobl nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog cymedrig o ran anabledd | Cyflog canolrifol pobl anabl | Cyflog canolrifol pobl nad ydynt yn anabl | Bwlch cyflog canolrifol o ran anabledd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TS ac EO | Cyflog | £30,663 | £31,106 | 1.42% | £29,657 | £30,749 | 3.55% |
| | Tâl yr awr | £15.94 | £16.17 | | £15.41 | £15.98 | |
| HEO ac SEO | Cyflog | £46,064 | £47,121 | 2.24% | £43,759 | £45,974 | 4.82% |
| | Tâl yr awr | £23.94 | £24.49 | | £22.74 | £23.90 | |
| G7, G6 ac SCS | Cyflog | £74,577 | £74,888 | 0.42% | £70,450 | £70,450 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £38.76 | £38.92 | | £36.62 | £36.62 | |

- Mae bwlch cyflog anabledd Llywodraeth Cymru wedi codi i 4.69% ym mis Mawrth 2025, o 4.10% ym mis Mawrth 2024. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'n dal i fod yn is na'r holl flynyddoedd eraill ers i'r gyfres amser ddechrau yn 2019, ac yn gyffredinol gwelwyd tuedd o ostwng dros amser.
- Un ffactor a allai fod wedi cyfrannu at gulhau'r bwlch cyflog dros y blynyddoedd yw'r cynnydd bach mewn staff anabl ar raddau canolig ac uwch.

## Bwlch Cyflog Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae'r ffigurau isod yn seiliedig ar gyfanswm o 4,670 o staff: nododd 259 fod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol (6%) a nododd 4,411 eu bod yn heterorywiol (94%). Ni chafodd 1,134 o staff nad ydynt wedi datgan eu cyfeiriadedd rhywiol ar y system adnoddau dynol (20% o holl staff Llywodraeth Cymru) eu cynnwys.

**Bwlch Cyflog Cyfeiriadedd Rhywiol Llywodraeth Cymru: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025**

| | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff heterorywiol | Bwlch cyflog cymedrig o ran cyfeiriadedd rhywiol | Cyflog canolrifol staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog canolrifol staff heterorywiol | Bwlch cyflog canolrifol o ran cyfeiriadedd rhywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | £51,104 | £49,944 | -2.32% | £48,135 | £45,974 | -4.70% |
| Tâl yr awr | £26.56 | £25.96 | | £25.02 | £23.90 | |

**Bwlch Cyflog Cyfeiriadedd Rhywiol yn ôl Grŵp Gradd: Cymedrig a Chanolrifol, mis Mawrth 2025**

| | | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog cyfartalog (cymedrig) staff heterorywiol | Bwlch cyflog cymedrig o ran cyfeiriadedd rhywiol | Cyflog canolrifol staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Cyflog canolrifol staff heterorywiol | Bwlch cyflog canolrifol o ran cyfeiriadedd rhywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TS ac EO | Cyflog | £30,889 | £31,101 | 0.68% | £30,749 | £30,749 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £16.05 | £16.17 | | £15.98 | £15.98 | |
| HEO ac SEO | Cyflog | £46,793 | £47,054 | 0.55% | £45,974 | £45,974 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £24.32 | £24.46 | | £23.90 | £23.90 | |
| G7, G6 ac SCS | Cyflog | £74,013 | £74,914 | 1.20% | £70,450 | £70,450 | 0.00% |
| | Tâl yr awr | £38.47 | £38.94 | | £36.62 | £36.62 | |

- Mae bwlch cyflog cyfeiriadedd rhywiol Llywodraeth Cymru wedi bod yn negatif am y cyfnod cyfan y cafodd ei gyfrifo ar ei gyfer (ers 2022), sy'n dangos tâl uwch i staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol. Ar ôl i'r bwlch leihau i -0.29% ym mis Mawrth 2023, mae wedi ehangu i -2.32% ym mis Mawrth 2025.
- Mae cyfran uwch o staff nad ydynt wedi datgan eu cyfeiriadedd rhywiol ar y system AD (ac sydd felly wedi'u heithrio o gyfrifiadau) na'r rhai sydd ag ethnigrwydd neu anabledd heb ei ddatgan. Yn 2025, dim ond 80% o staff cymwys cyfatebol a ddatganodd eu cyfeiriadedd rhywiol. Mewn cymhariaeth, mae'r gyfradd ddatgan yn 89% ar gyfer ethnigrwydd a 92% ar gyfer anabledd.
- Er bod y bylchau cyflog yn y rhan fwyaf o'r graddau unigol yn bositif, mae bwlch cyflog cyffredinol Llywodraeth Cymru yn negatif. Gallai hyn fod oherwydd bod cyfran uwch o staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol ar raddau uwch.

## Cymorth i staff sy'n cael tâl is

Un o brif egwyddorion Llywodraeth Cymru yw canolbwyntio ar roi sylw i gyflogau isel a chefnogi'r Cyflog Byw.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig ac mae'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol (gan gynnwys prentisiaid) yn cael y Cyflog Byw yn unol â diffiniad y Sefydliad Cyflog Byw. Cymerir camau bob blwyddyn i sicrhau bod cyflogau'n parhau i gydymffurfio ag unrhyw newidiadau i gyfraddau sy'n cael eu diffinio gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Mae ein trefniadau Cyflog Byw yn mynd ymhellach na'r staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gennym. Mae pob proses gaffael newydd gan Lywodraeth Cymru yn ystyried y cyfle i gontractwyr ddarparu Cyflog Byw i staff.

## Pwyntiau cyflog uchaf ac isaf

Y cyflog isaf o fewn Llywodraeth Cymru yw'r gyfradd gychwynnol o fewn ystod cyflog Cymorth Tîm. Yr aelod staff sy'n cael y cyflog uchaf ar hyn o bryd yw'r Ysgrifennydd Parhaol. Mae'r cymariaethau cyflog (yn Atodiad 3) felly, yn ymwneud â chyflogau'r Ysgrifennydd Parhaol, a chyflogau staff dirprwyedig.

## Polisi ymadael

Er mwyn helpu i ddatblygu'r sefydliad mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd yn cynnig diswyddiadau gwirfoddol. O dan amgylchiadau o'r fath bydd cyflogeion yn cael cynnig iawndal o fewn fframwaith a nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Mae'r holl ddiswyddiadau yn cael eu hategu gan achos busnes sy'n cynnwys dadansoddiad cost a budd.

## Atodiadau

Ategir y datganiad hwn gan yr atodiadau canlynol (gwybodaeth ar 31 Mawrth 2025):

- **Atodiad 1** – Bandiau cyflog Llywodraeth Cymru (Staff Dirprwyedig a'r Uwch Wasanaeth Sifil)
- **Atodiad 2** – Manylion y graddau staffio
- **Atodiad 3** – Cymharu cyflogau o fewn Llywodraeth Cymru
- **Atodiad 4** – Adroddiad cyflogau uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru
- **Atodiad 5** – Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth Cymru 2024-25.

# Atodiad 1

## Bandiau Cyflog Llywodraeth Cymru (Staff Dirprwyedig a'r Uwch Wasanaeth Sifil) – 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025

| Bandiau Cyflog – yr Uwch Wasanaeth Sifil | Pwynt Cyflog | Cyflog 2023-24 | Cyflog 2024-25 |
|---|---|---|---|
| Yr Ysgrifennydd Parhaol (Haen 1, 2 a 3) | Uchafswm<br>Isafswm | £200,000<br>£150,000 | £200,000[1]<br>£150,000 |
| Cyfarwyddwyr Cyffredinol (Band Cyflog 3 SCS) | Uchafswm<br>Isafswm | £208,100<br>£127,000 | £208,100[2]<br>£128,000 |
| Cyfarwyddwr (Band Cyflog 2 SCS) | Uchafswm<br>Isafswm | £162,500<br>£97,000 | £162,500<br>£98,000 |
| Dirprwy Gyfarwyddwr (Band Cyflog 1 SCS) | Uchafswm<br>Isafswm | £117,800<br>£75,000 | £117,800<br>£76,000 |

| Bandiau Cyflog – Staff Dirprwyedig | Pwynt Cyflog | Cyflog | Cyflog |
|---|---|---|---|
| Gradd 6 | 4<br>3<br>2<br>1 | £80,840<br>£75,390<br>£73,059<br>£70,455 | £84,882<br>£79,160<br>£76,712<br>£73,978 |
| Gradd 7 | 4<br>3<br>2<br>1 | £67,095<br>£62,454<br>£59,273<br>£56,112 | £70,450<br>£65,577<br>£62,237<br>£58,918 |
| Uwch-swyddog Gweithredol | 4<br>3<br>2<br>1 | £51,839<br>£48,269<br>£45,843<br>£43,785 | £54,431<br>£50,682<br>£48,135<br>£45,974 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 4<br>3<br>2<br>1 | £41,675<br>£38,420<br>£36,246<br>£34,083 | £43,759<br>£40,341<br>£38,058<br>£35,787 |
| Swyddog Gweithredol | 3<br>2<br>1 | £32,141<br>£29,285<br>£28,245 | £33,748<br>£30,749<br>£29,657 |
| Cymorth Tîm | 3<br>2<br>1 | £26,901<br>£25,074<br>£23,258 | £28,246<br>£26,328<br>£24,421 |

1 Mae bandiau cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil yn cael eu pennu gan Swyddfa'r Cabinet Llywodraeth y DU. Mae Andrew Goodall ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn gyson â thelerau'r trefniant secondiad hwnnw mae wedi aros ar delerau ac amodau'r Bwrdd Iechyd. Yn dilyn Cylchlythyr Tâl Iechyd Cymru 09/2025 ar gyfer Swyddogion Gweithredol y GIG, cafodd Andrew Goodall ddyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2024-25 ac mae wedi dewis peidio â bod o dan drefniadau Pensiwn y GIG.

2 Cafodd Judith Paget ei secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a pharhaodd ar Delerau ac Amodau'r Bwrdd Iechyd nes iddi gael ei throsglwyddo i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru fel cyflogai ar 1 Rhagfyr 2023. Yn dilyn Cylchlythyr Tâl Iechyd Cymru 01/2024 ar gyfer Gweithredwyr y GIG, cafodd ddyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2023-24 i 30 Tachwedd 2023. Ei chyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy gyda Llywodraeth Cymru yn 2023-24 oedd £215,000-£220,000 y flwyddyn. Mae buddion pensiwn 2023-24 ar gyfer Judith Paget yn ymwneud â threfniadau Pensiwn y GIG hyd at 30 Tachwedd 2023, a threfniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil o 1 Rhagfyr 2024.

# Atodiad 2

## Dadansoddiad o raddau staffio – ar 31 Mawrth 2025

| Bandiau Cyflog | FTE |
|---|---:|
| SCS Ysgrifennydd Parhaol | 1 |
| SCS 3 | 4 |
| SCS 2 | 35 |
| SCS 1 | 148 |
| Gradd 6 | 233 |
| Gradd 7 | 973 |
| Uwch-swyddog Gweithredol | 1,405 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 1,286 |
| Swyddog Gweithredol | 874 |
| Cymorth Tîm | 610 |
| Arall | 27 |
| Cynghorwyr Arbennig | 14 |
| **Cyfanswm** | **5,609** |

# Atodiad 3

## Cymharu Cyflogau o fewn Llywodraeth Cymru – ar 31 Mawrth 2025

Y cyflog isaf ar gyflogres Llywodraeth Cymru yw'r gyfradd gychwynnol o fewn ystod cyflog Cymorth Tîm. Yr aelod staff sy'n cael y cyflog uchaf ar hyn o bryd yw'r Ysgrifennydd Parhaol. Mae'r cymariaethau cyflog, felly, yn ymwneud â'r Ysgrifennydd Parhaol a'r ystod uchaf ac isaf o gyflogau Cyfarwyddwyr Cyffredinol.

Mae'r cymarebau yn y tabl isod yn cael eu cyfrifo drwy ddefnyddio cyflog gwirioneddol y cyflogai ar y cyflog isaf a'r cyflog canolrifol gwirioneddol, wedi'i rannu â phwynt canol y bandio cyflog ar gyfer y cyflogai ar y cyflog uchaf a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol.

| Lluosrif Cyflog | | Cymhareb |
|---|---|---|
| Cymhareb Isel i Uchel | Y lluosrif rhwng cyflog blynyddol y gweithiwr isaf ei gyflog (£20,000-£25,000) ac uchaf ei gyflog (£240,000-£245,000) | 1 i 9.93 |
| Cymhareb Isel i Gyfarwyddwr Cyffredinol | Y lluosrif rhwng cyflog blynyddol y gweithiwr isaf ei gyflog (£20,000 – £25,000) a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol<br>Cyflog uchaf – £225,000-£230,000<br>Cyflog isaf – £135,000-£140,000 | Uchaf – 1 i 5.92<br>Isaf – 1 i 5.48 |
| Cymhareb Canolrifol i Uchel | Y lluosrif rhwng cyflog canolrifol (£45,600) Llywodraeth Cymru a'r cyflogai ar y cyflog uchaf (£240,000-£245,000) | 1 i 5.32 |
| Cymhareb Ganolrifol i Gyfarwyddwr Cyffredinol | Y lluosrif rhwng cyflog canolrifol (£45,600) Llywodraeth Cymru a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol<br>Cyflog uchaf – £225,000-£230,000<br>Cyflog isaf – £135,000-£140,000 | Uchaf – 1 i 4.99<br>Isaf – 1 i 3.02 |

**Dangosir y berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a'r chwarteli isaf, canolrifol ac uchaf isod:**

| Blwyddyn | | 25ain Canradd | Canolrif | 75ain Canradd |
|---|---|---|---|---|
| 2023-24 | Cymhareb tâl (:1) | 7.2 | 5.6 | 4.5 |
| | Tâl cydnabyddiaeth y chwartel (£) | 32,141 | 41,675 | 51,839 |
| 2022-23 | Cymhareb tâl (:1) | 7.2 | 5.3 | 4.1 |
| | Tâl cydnabyddiaeth y chwartel (£) | 33,748 | 45,600 | 58,918 |

Yn 2023-24 a 2024-25 ni chafodd unrhyw weithwyr dâl cydnabyddiaeth yn uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf.

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd nodi canran y newid i'r tâl cydnabyddiaeth o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf; a'r newid canrannol cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion yr endid yn ei grynswth.

| | **Newid canrannol tâl – y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf** | **Newid canrannol cyfartalog tâl – cyflogeion yn eu crynswth** |
|---|---:|---:|
| 2024-25 | 4.30% | 6.34% |
| 2023-24 | 6.90% | 3.76% |

Mae'r cyfrifiad gofynnol ar gyfer canran y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn cymharu canolbwynt y band tâl sef 2024-25 £240,000 – £245,000 (2023-24: £230,000 – £235,000), yn hytrach na'r newid canrannol yn y cyflog gwirioneddol. Mae defnyddio pwynt canol y band i gyfrifo yn gallu ystumio'r cyfrifiad o'i gymharu â'r dyfarniad gwirioneddol a gafwyd.

Mae'r newid canrannol cyfartalog i'r tâl ar gyfer cyflogeion yn gyffredinol (6.34%) yn uwch na'r dyfarniad cyflog o 5% ar gyfer 2024-25. Mae'r cyfrifiad hwn yn cynnwys staff ar secondiad a staff dros dro, a gall y cymysgedd o'r rhain amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ogystal â'r dyfarniadau cyflog sy'n gymwys i unigolion o'r fath. Y newid canrannol cyfartalog i weithwyr ar gyflogres Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yw 7.06%.

Mae'r cynnydd mewn cyflogau staff ar gyfartaledd yn adlewyrchu newid graddol yn strwythur y sefydliad. Rhwng mis Mawrth 2024 a mis Mawrth 2025 daeth y gweithlu, yn gyffredinol, yn un a oedd yn cynnwys mwy o staff ar lefel uwch, gan fod llai o staff ar raddau Cymorth Tîm, EO a HEO a mwy ar raddau SEO, Gradd 7 a Gradd 6, hyd yn oed wrth i'r sefydliad leihau ei faint drwy'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Fe wnaeth dyfarniad cyflog 2024-25 hefyd wthio pwynt 3 SEO uwchlaw £50,000, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o'r staff ar y radd honno bellach yn ennill mwy na'r swm hwn. Er bod maint yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) wedi lleihau ychydig, hysbysebwyd rhai rolau â chyflogau uwchlaw isafswm y band i ddenu ymgeiswyr, ac mae rhai secondeion ar gyflogau uchel wedi dod yn staff parhaol, gan effeithio ar gyfartaleddau cyflog. Mae'r rhan fwyaf o'r staff eisoes ar frig eu band cyflog, ond mae rhai carfanau, megis prentisiaid, wedi symud ymlaen yn sylweddol eleni.

# Atodiad 4

**Cyflogau Uwch-reolwyr Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2025** – Swyddogion sy'n ennill £100,000 neu fwy mewn bandiau o £5,000. Mae'r ddwy restr yn cynnwys staff ar y gyflogres a staff oddi ar y gyflogres/ar secondiad. Pan fo staff yn cael cyflog sydd dros £100k ond eu bod wedi cael eu talu llai na £100k yn y flwyddyn, mae hynny oherwydd eu bod naill ai'n rhan-amser (dangosir ystod cyflog rhan-amser gwirioneddol) neu wedi ymuno ar ganol blwyddyn.

| Cyflogai | Ystod cyflog | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Goodall, A | £240,000-£245,000 | Ysgrifennydd Parhaol |
| Paget, JA | £225,000-£230,000 | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Strategaeth Llywodraeth Cymru |
| Jones, HD | £175,000-£180,000 | Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Hackwell, S | £165,000-£170,000 | Uwch-swyddog Meddygol ar gyfer Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl |
| Tranka, S | £165,000-£170,000 | Prif Swyddog Nyrsio |
| Wood, NA | £165,000-£170,000 | Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru |
| Heaney, AL | £150,000-£155,000 | Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Mangat, P | £145,000-£150,000 | Dirprwy Brif Swyddog Meddygol |
| Baranski, GE | £140,000-£145,000 | Prif Arolygydd |
| Burke, TM | £140,000-£145,000 | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig |
| Morris, HJ | £140,000-£145,000 | Secondiad allanol |
| Slade, A | £140,000-£145,000 | Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol |
| Evans, S | £130,000-£135,000 | Prif Swyddog Gweithredu[3] |
| Reid, K | £130,000-£135,000 | Dirprwy Brif Swyddog Meddygol – Iechyd y Cyhoedd |
| Brown, N | £125,000-£130,000 | Prif Weithredwr CAFCASS Cymru |
| Medcraft, DJ | £125,000-£130,000 | Cyfarwyddwr Cyllid[4] |
| Kczynska, A | £125,000-£130,000 | Uwch-swyddog Meddygol ar gyfer Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl |
| Badyal, JS | £120,000-£125,000 | Prif Gynghorydd Gwyddonol |
| Dickenson, AJ | £120,000-£125,000 | Prif Swyddog Deintyddol |
| Evans, IG | £120,000-£125,000 | Secondiad allanol |
| Jeffreys, A | £115,000-£120,000 | Cyfarwyddwr y Trysorlys, F&CS |
| Lalley, E | £115,000-£120,000 | Cyfarwyddwr, Polisi a Strategaeth Economaidd |
| Ryland, PW | £115,000-£120,000 | Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) |
| Arthur, H | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

| Cyflogai | Ystod cyflog | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Bennett, CJ | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr, Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol |
| Bisson, PJ | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr, y Cyfansoddiad |
| Brindle, SJ | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr Masnachol a Chaffael |
| Currado, GM | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr, Materion Gwledig |
| Daniels, J | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr |
| Davies, HG | £110,000-£115,000 | Uwch-gwnsler Deddfwriaethol – Dirprwy Gyfarwyddwr |
| Evans, A | £110,000-£115,000 | Prif Fferyllydd |
| Francis, AK | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio |
| Gwatkin, AP | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach |
| Hamer, DJ | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr, Gweithrediadau |
| Houlihan, D | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd |
| Hughes, DM | £110,000-£115,000 | Prif Gwnsler Deddfwriaethol |
| Irvine, RM | £110,000-£115,000 | Prif Swyddog Milfeddygol |
| Jones, AD | £110,000-£115,000 | Prif Weithredwr |
| Jones, GD | £110,000-£115,000 | Prif Swyddog Digidol |
| Jones, PL | £110,000-£115,000 | Diprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Polisïau Diogelu Iechyd a Rhaglenni Blaenoriaeth |
| Jones, VL | £110,000-£115,000 | Prif Ysgrifennydd Preifat i'r Prif Weinidog |
| Macnamara, CA | £110,000-£115,000 | Uwch-gwnsler Deddfwriaethol – Dirprwy Gyfarwyddwr |
| McDonald, PW | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol |
| Salway, JE | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr, Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg |
| Slade, AJ | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl a’r Blynyddoedd Cynnar |
| Thomas, JD | £110,000-£115,000 | Cyfarwyddwr, Twristiaeth, Marchnata, Digwyddiadau a Chreadigol |
| Emery, ME | £105,000-£110,000 | Cyfarwyddwr, Digidol a Thechnoleg |
| John, A | £105,000-£110,000 | Cyfarwyddwr, Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol |
| Martin, N | £105,000-£110,000 | Uwch-gwnsler Deddfwriaethol – Dirprwy Gyfarwyddwr |
| Williams, EL | £105,000-£110,000 | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Addysg, Diwylliant a’r Gymraeg |
| Adams, AW | £100,000-£105,000 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol |
| Doyle, R | £100,000-£105,000 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraethiant a Goruchwyliaeth Rhaglenni |
| George, JE | £100,000-£105,000 | Uwch-gwnsler Deddfwriaethol - Dirprwy Gyfarwyddwr |
| Mason, TR | £100,000-£105,000 | Pennaeth Cyfathrebu Strategol |
| Meadows, RC | £100,000-£105,000 | Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol |

### Cyflogau rhan-amser dros £100,000

| Cyflogai | Ystod cyflog | Disgrifiad | Ystod cyflog gwirioneddol os yw'n gweithio'n rhan-amser |
|---|---|---|---|
| Mitchell-Kilpatrick, RT | £100,000-£105,000 | Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Chynllunio | £110,000-£115,000 |
| Stephens, DJ | £100,000-£105,000 | Cynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru | £115,000-£120,000 |
| Atherton, F | £110,000-£115,000 | Y Prif Swyddog Meddygol | £160,000-£165,000 |

### Cyflog amser llawn dros £100,000 ond wedi cael tâl llai na £100,000

| Cyflogai | Ystod cyflog | Disgrifiad | Ystod cyflog gwirioneddol os yw'n gweithio'n rhan-amser |
|---|---|---|---|
| Davies, MW | £95,000-£100,000 | Uwch-gwnsler Deddfwriaethol - Dirprwy Gyfarwyddwr | £110,000-£115,000 |
| Breheny, T | £90,000-£95,000 | Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Strategaeth a Busnes Corfforaethol | £110,000-£115,000 |
| Williams, IM | £80,000-£85,000 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu Twristiaeth a Digwyddiadau Mawr | £105,000-£110,000 |
| Pearson, N | £65,000-£70,000 | Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | £100,000-£105,000 |
| Richards, DT | £60,000-£65,000 | Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg | £120,000-£125,000 |

### Cyflogau amser llawn dros £100,000 ond a ymunodd ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn

| Cyflogai | Ystod cyflog | Disgrifiad | Ystod cyflog gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| Edmonds, SC | £90,000-£95,000 | Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol | £115,000-£120,000 |

# Atodiad 5

## Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol: Adroddiad Blynyddol 2024-2025

### Y Cefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Cyfarfu'r pwyllgor, yn ei ddwy ffurf, wyth gwaith yn ystod y cyfnod adrodd ar y dyddiadau canlynol:

**Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol**

- 10 Ebrill 2024
- 4 Mehefin 2024
- 10 Gorffennaf 2024
- 3 Medi 2024
- 30 Hydref 2024
- 26 Tachwedd 2024 (ni wnaed unrhyw gofnod)
- 15 Ionawr 2025
- 18 Chwefror 2025

1.2 Roedd presenoldeb aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

| Enw | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Carys Williams, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7 |
| Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol | 6 |
| Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG/Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar | 3 |
| Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Newid Hinsawdd a Materion Gwledig/ Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 4 |
| Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad/ Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth | 5 |
| Sioned Evans, Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg/Prif Swyddog Gweithredu | 7 |
| Tim Moss, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu | 7 |
| Mutale Merrill, Cyfarwyddwr Anweithredol | 5 |
| Dom Houlihan, Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd | 7 |
| Mike Usher, Cyfarwyddwr Anweithredol | 1 |
| Aled Edwards, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7 |
| Aimee Symmonds, Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Chyflenwi Adnoddau Dynol (o fis Ionawr 2025) | 2 |

| Enw | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Sally Ann Efstathiou, Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Chyflenwi Adnoddau Dynol (cyn Ionawr 2025) | 3 |
| Liz Richards, Pennaeth Tâl a Gwobrwyo | 6 |
| Robin Bradfield, Cynrychiolydd TUS | 1 |
| Stephanie Landeryou, Cynrychiolydd TUS | |

**Noder:** digwyddodd sawl newid o ran strwythur a rolau yn ystod y cyfnod hwn. Pan oedd unigolion yn bresennol mewn rolau gwahanol, nodir y ddwy rôl.

Mae gwahanol Gynrychiolwyr Undebau Llafur wedi bod yn bresennol fel y bo'n briodol.

### 1.3 Is-bwyllgor y Bwrdd: Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol wedi bod yn gweithredu'n llawn fel un corff cynghori strategol ers mis Tachwedd 2003, i ddarparu her, cyfeiriad a sicrwydd ar strategaethau a mentrau sy'n gysylltiedig â phobl, risgiau allweddol a chyfleoedd.

Mae'n canolbwyntio o hyd ar faterion strategol yn ymwneud â phobl, ac mae'n cadw'r cyfrifoldebau statudol dros delerau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil, a thros oruchwylio'r modd y cymhwysir hwy, gan gynnwys y fframwaith rheoli perfformiad, y strategaeth tâl a dyfarniadau tâl, ac mae'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddadansoddiadau rheolaidd o dueddiadau'r gweithlu.

Mae Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol yn **Atodiad A**.

1.4 Trafododd y pwyllgor y materion canlynol yn ystod y flwyddyn

- Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd
- Adolygiad gwrth-hiliaeth Red Quadrant
- Rhagfynegi refeniw a mecanweithiau cyllido
- Cymedroli perfformiad yr Uwch Wasanaeth Sifil
- Telerau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil
- "Codi Llais"; sut rydym yn cefnogi staff i godi pryderon
- Risgiau strategol o ran pobl; capasiti, galluogrwydd a diwylliant
- Adolygu'r cynllun ymadael gwirfoddol a'r gwersi a ddysgwyd
- Fframwaith Llywodraeth Cymru: Ymwneud Gweinidogion â Recriwtio yn y Gwasanaeth Sifil
- Diwylliant Perfformiad Llywodraeth Cymru
- Canlyniadau Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru
- Ymrwymiadau Cydraddoldeb y Gweithlu

Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor nifer bach o achosion busnes penodol a oedd yn ymwneud â thâl a rolau.

## 2. Crynodeb gan y Cadeirydd

2.1 Mae ein nodau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys cefnogi, ceisio sicrwydd a nodi risgiau strategol mewn perthynas â'r canlynol:

- datblygu Strategaeth Pobl Llywodraeth Cymru
- dull y sefydliad o nodi, mynd i'r afael â'r risgiau i bobl a'u lliniaru
- alinio pobl a galluoedd â strategaethau a chynlluniau'r sefydliad, gan gynnwys rheoli talent, cynllunio ar gyfer olyniaeth a chyfleoedd dysgu a datblygu a manteisio arnynt ar draws y sefydliad
- ein hymrwymiad i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, defnydd y sefydliad o'r model cymdeithasol o anabledd a chyflawni Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-2026
- diwylliant y sefydliad o ran pobl a'i ymrwymiad i'w werthoedd, gan gynnwys llesiant staff, rheoli perfformiad, ymgysylltu a dulliau chwythu'r chwiban
- rôl a gweithrediad posibl tâl sy'n seiliedig ar allu ar gyfer SCS.

2.2 Rwyf yn ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor am eu cyfraniadau gwerthfawr drwy gydol y flwyddyn. Mae eu hystyriaeth ofalus a'u safbwyntiau tryloyw a chytbwys yn ein helpu i sicrhau ein bod yn ystyried y materion sydd ger ein bron yn sensitif, yn deg, yn gyson ac yn ddi-oed i ddiwallu anghenion y sefydliad.

## 3. Goblygiadau o ran adnoddau

3.1 Adroddiad sy'n rhoi diweddariad yw hwn, ac mae pob un o'r meysydd a'r materion a godwyd yn dod o dan yr adnoddau ariannol a staffio presennol.

## 4. Risgiau

4.1 Mae pob risg yn cael ei chofnodi a'i monitro yn briodol mewn cofrestr risgiau ar wahân.

## 5. Cyfathrebu

5.1 Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar y fewnrwyd yn ogystal â'r rhyngrwyd

## 6. Materion cydymffurfio cyffredinol

6.1 Dim.

# Atodiad A

## Cylch Gorchwyl Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2023)

## Diben

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol (PRemCom) yn gorff cynghori strategol ac yn is-bwyllgor o'r Bwrdd. Mae'n darparu her, cyfeiriad a sicrwydd ar strategaethau sy'n gysylltiedig â phobl, risgiau a chyfleoedd allweddol a'r strategaeth a'r polisi tâl ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil.

## Cyfrifoldebau

**1. Strategaeth y gweithlu, mentrau a chynlluniau**
Mae'r Pwyllgor yn darparu cyngor a sicrwydd mewn perthynas â datblygu a chyflawni Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu a fydd yn ein galluogi i ddatblygu'r diwylliant, y bobl a'r sgiliau y mae arnom eu hangen arnom i gyflawni dros Gymru dros y tair blynedd nesaf a'r tu hwnt, o fewn cyd-destun economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynyddol heriol:

Diwylliant a gwerthoedd

- Goruchwylio'r fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad gan sicrhau bod gwerthoedd creadigrwydd, tegwch, partneriaeth a phroffesiynoldeb yn cael eu cymhwyso mewn ffyrdd o weithio a bod ymddygiadau ar draws y sefydliad yn cyd-fynd ag amcanion strategol, yn enwedig ymrwymiadau i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Arddel dull o ystyried at y dyfodol y newidiadau y mae eu hangen o ran diwylliant, camau gweithredu a busnes ac ymddygiad ar gyfer y tymor hir.
- Trefniadau monitro i fynd i'r afael ag ymddygiad a diwylliant nad ydynt yn bodloni gwerthoedd sefydliadol (gan gynnwys chwythu'r chwiban a phryderon a godir gan staff).

Cynllunio'r gweithlu a'r sefydliad

- Goruchwylio strategaeth y gweithlu gan gynnwys datblygu a gweithredu, effeithiolrwydd cynllunio'r gweithlu a sicrhau bod gennym y sgiliau a'r gallu cywir yn awr ac yn y dyfodol.
- Sicrhau bod y cynllun sefydliadol cyffredinol yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a bod y sefydliad wedi'i drefnu i fod yn effeithiol ac yn effeithlon; ystyried strategaeth, model gweithredu targed, strwythurau grŵp, prosesau, polisi a systemau.

**2. Materion a risg sy'n gysylltiedig â phobl**

Asesu'r risgiau i bobl y mae'r sefydliad yn agored iddynt a chyfrannu persbectif i helpu i fynd i'r afael â materion sy'n codi, gan gynnwys:

- Denu, recriwtio a chadw cyflogeion
- Ymgysylltiad a pherfformiad cyflogeion
- Cynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent
- Unrhyw risg arall sy'n gysylltiedig â'r gweithlu neu'r tîm adnoddau dynol a allai godi o bryd i'w gilydd.

Ystyried pynciau eraill a goruchwylio gweithgareddau eraill, fel y cyfarwyddir gan y Bwrdd neu ExCo.

**3. Telerau ac adnoddau SCS**

Mae'r Telerau ac Amodau ar gyfer SCS yn cael eu pennu gan Swyddfa'r Cabinet, ac mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r gwaith o gymhwyso'r fframwaith rheoli perfformiad, y strategaeth tâl a'r dyfarniadau tâl drwy:

- Fonitro'r broses o gymhwyso strategaeth dâl SCS, gan bennu egwyddorion a pharamedrau cyffredinol polisi cydnabyddiaeth ariannol SCS a llywio dyfarniadau tâl SCS.
- Adolygu effaith y strategaeth tâl a gwobrwyo, polisi a phenderfyniadau, sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n deg a chyfiawn, ystyried achosion tâl penodol a goruchwylio'r sefyllfa o ran tâl cyfartal.
- Ystyried unrhyw newidiadau strwythurol sylweddol sy'n cael effaith ar arweinyddiaeth, gan gynnwys creu rolau newydd yn SCS fel rhan o ddatblygiad sefydliadol a chynllunio adrannol/cyfarwyddiaeth a newidiadau i rolau SCS presennol sy'n debygol o gael effaith sefydliadol ehangach.
- Goruchwylio penodiad, telerau ac amodau a statws cyflogaeth SCS, ac yn benodol penodiadau a wneir ar lefel Ysgrifennydd Parhaol a Chyfarwyddwr Cyffredinol.
- Gweithredu fframwaith Telerau ac Amodau'r Ysgrifennydd Parhaol (adolygu cymhwyso dyfarniadau tâl a chael adroddiad blynyddol ar drefniadau rheoli perfformiad a chyflogaeth ar gyfer yr Ysgrifennydd Parhaol).
- Goruchwylio gweithrediad fframwaith rheoli perfformiad SCS, sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith, adolygu canlyniadau'r broses gymedroli a chyfrannu at drafodaethau ar gynllunio ar gyfer olyniaeth ac adeiladu gallu SCS.

**Ffurf a mynychder cyfarfodydd.**

- Fel isafswm, bydd gan bob cyfarfod eitem safonol ar delerau ac amodau a chydnabyddiaeth ariannol SCS i sicrhau bod cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru tuag at Swyddfa'r Cabinet yn y maes hwn yn cael eu cyflawni'n llawn.
- Bydd rhagolwg ar waith sy'n cyd-fynd â chylch gwneud penderfyniadau ExCo i sicrhau bod y Pwyllgor yn darparu her, cyfeiriad a sicrwydd ar faterion penodol yn ymwneud â'r gweithlu a risgiau a materion pobl ar yr adeg gywir, gyda thrafodaeth â ffocws pendant ym mhob cyfarfod.

- Bydd fframwaith adrodd ar waith mewn perthynas â darparu data, systemau gwybodaeth reoli a Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs), gan sicrhau y gall y Pwyllgor wneud cyfraniad ar sail tystiolaeth a chan ganiatáu i dueddiadau, effaith a chanlyniad gael eu nodi.
- Fel arfer, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob chwe wythnos.

### Cysylltiadau â chyrff eraill

- Mae PRemCom yn is-bwyllgor strategol o'r **Bwrdd**. Gall y bwrdd o bryd i'w gilydd gomisiynu PRemCom yn benodol i ganolbwyntio ar ystyried maes penodol o faterion y gweithlu. Bydd y Bwrdd yn cael adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor.
- **ExCo** yw'r corff ffurfiol sy'n gwneud penderfyniadau ar ran Llywodraeth Cymru o hyd. Bydd trafodaethau yn PRemCom yn llywio penderfyniadau a wneir gan ExCo. Bydd PRemCom yn uwchgyfeirio risgiau a materion i ExCo os yw o'r farn bod angen eu hystyried ymhellach neu os oes angen tynnu sylw at bryderon.
- Mae'r **Panel Blaenoriaethu Adnoddau** yn goruchwylio sut y mae Fframwaith dirprwyo ac atebolrwydd y gweithlu'n cael ei roi ar waith. Bydd gwybodaeth berthnasol am ddata a rheolaeth a drafodir gan y Panel yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor.
- Mae'r **Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** yn goruchwylio gweithrediad polisïau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â phobl.
- Bydd **Grŵp Gweithredu LlC2025** yn ceisio sicrwydd gan PRemCom ar gymhwyso Strategaeth y Gweithlu a bydd yn gyfrifol am fynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n destun pryder y mae PRemCom yn eu codi neu fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion a wneir.

### Awdurdod

- Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ac mae'n atebol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (PAO) ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r memorandwm y Prif Swyddog Cyfrifyddu oddi wrth Drysorlys EF yn nodi awdurdod dirprwyedig yr Ysgrifennydd Parhaol, gan gynnwys rheoli'r sefydliad yn effeithlon ac yn effeithiol gyda chyfrifoldeb personol dros stiwardiaeth ar adnoddau.
- Mae'r llywodraethiant ar gyfer y cyfrifoldeb hwn yn cael ei arfer yn benodol gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer materion staffio SCS drwy'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol, gan geisio cyngor a chyfarwyddyd. Pan fydd y Pwyllgor yn cytuno ar gynllun gweithredu, mater i'r Ysgrifennydd Parhaol, gyda chymorth y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd, yw gwneud unrhyw benderfyniadau gweithredol dilynol y mae eu hangen i sicrhau bod y cam gweithredu'n cael ei gyflawni'n briodol ac yn gydymffurfiol.
- Mae'r Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth a sicrwydd ar faterion strategol yn ymwneud â'r gweithlu, materion a risgiau sy'n ymwneud â phobl Mae ganddo awdurdod i ymgymryd ag unrhyw weithgarwch o fewn ei gylch gorchwyl ac ymchwilio iddo, gan gynnwys gofyn i unrhyw gydweithiwr o Lywodraeth Cymru fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor a/neu geisio unrhyw wybodaeth neu arweiniad sy'n ofynnol i gyflawni ei ddyletswyddau.

**Aelodaeth**

**Yr Ysgrifennydd Parhaol** – yn gyfrifol am wneud penderfyniadau terfynol yn ymwneud â materion staffio sy'n dod o fewn cylch gwaith rôl yr Ysgrifennydd Parhaol.

**Cyfarwyddwyr Anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd)** – yn rhoi golwg gwrthrychol, annibynnol ac adeiladol ar strategaeth a chynlluniau sy'n ymwneud â materion y gweithlu a thâl, darparu gwaith craffu a her a rhoi sicrwydd i ExCo a'r Bwrdd (gan gynnwys sicrwydd bod y Pwyllgor yn parhau'n annibynnol ar aelodau'r SCS y mae ei benderfyniadau'n effeithio arnynt).

**Cyfarwyddwyr Cyffredinol** – yn darparu cyngor strategol, her a sicrwydd.

**Cyfarwyddwr AD** – darparu rôl gynghori broffesiynol ym maes AD gan sicrhau bod camau y cytunir arnynt yn cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth, egwyddorion Comisiwn y Gwasanaeth Sifil a pholisïau a dirprwyaethau Llywodraeth Cymru a bod camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith wedi hynny.

**Ysgrifenyddiaeth** – yn trefnu ac yn dosbarthu papurau cyfarfodydd, yn darparu nodyn terfynol o gyfarfodydd a gynhelir ac yn cofnodi'r holl bwyntiau gweithredu (adrodd ar gynnydd camau gweithredu).